Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 20 Hydref 2016 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 14 Hydref 2016.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Walsh (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ali Ahmed, Aubrey, Bale, Bowden, Boyle, Bradbury, Bridges, Carter, Chaundy, Clark, Richard Cook, Cowan, De'Ath, Derbyshire, Elsmore, Evans, Ford, Goddard, Goodway, Gordon, Graham, Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Hunt, Hyde, Keith Jones, Margaret Jones, Joyce, Kelloway, Knight, Lent, Lloyd, Marshall, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Mitchell, Murphy, Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Robson, Sanders, Simmons, Stubbs, Thomas, Ben Thomas, Graham Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, White, Wild, Darren Williams a/ac Woodman

83 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Manzoor Ahmed, Dilwar Ali, Burfoot, Ralph Cook, Kirsty Davies-Warner, Chris Davis, Govier, Groves, Holden, Magill, Derrick Morgan a David Rees.

84 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol: -

| **Cynghorydd** | **Buddiant** |
|---|---|
| Y Cynghorydd Ali Ahmed | Eitem 7: Canllawiau Cynllunio Ategol - tai amlfeddiannaeth – Buddiant personol o Dŷ Amlfeddiannaeth |
| Y Cynghorydd Hudson | Eitem 6: Adroddiad Gwella Blynyddol Cyngor Dinas Caerdydd ac Eitem 9: Datganiad Iechyd, Tai a Lles Aelod Cabinet – Buddiant personol fel aelod o deulu sy'n derbyn Cyfleusterau i'r Anabl. |
| Y Cynghorydd Kelloway: | Eitem 7: Canllawiau Cynllunio Ategol - tai amlfeddiannaeth – Buddiant personol o Dŷ Amlfeddiannaeth |
| Y Cynghorydd Woodman | Eitem 9: Datganiad Iechyd, Tai a Lles Aelod Cabinet – Buddiant personol ac Aelod o Fwrdd Rheoli Elusen Goldies Cymru. |

85 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Medi 2016 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

## 86 : DEISEBAU

1. Y Cynghorydd Marshall – 334 llofnod ar ddeiseb copi caled a 2500 ar ddeiseb ar-lein a oedd yn dal i fod yn agored yn galw ar y Cyngor i beidio â chau Canolfan Chwaraeon a Chymunedol Canol Caerdydd yn Ocean Park.
2. Y Cynghorydd Cowan – 10 llofnod yn gofyn am gadarnhad y bydd cynllun Dug Caeredin yn parhau yng Nghanolfan Ieuenctid Gabalfa ar gyfer y Gwobrau Aur ac Arian.
3. Y Cynghorydd Diane Rees – 545 llofnod yn galw ar y Cyngor i gydnabod y problemau parcio ym Mhontprennau a chreu strategaeth effeithiol i atal y problemau hyn.

## 87 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Gwnaeth yr Arglwydd Faer y datganiad canlynol i'r Cyngor:

Roedd 21 Hydref 2016 yn nodi hanner canrif ers Trychineb Aberfan a dywedodd yr Arglwydd Faer, ar ran y Cyngor, y byddai gofyn i staff ac Aelodau aros am funud o dawelwch am 9.15am yfory, union amser y trychineb, er mwyn dangos parc ac i gofio.

Bu i'r Arglwydd Faer longyfarch y timau am eu llwyddiannau'r mis hwn fel a ganlyn:

> Mae'r Cynllun Gwella Gwyliau Plant yn gynllun sy'n cynnig prydau iachus, chwaraeon ac addysg i blant sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas ac mae newydd dderbyn gwobr arall yng ngwobrau "Addyrlwyo". Dyma bumed wobr y project eleni.
>
> Roedd Cadw'r Rhath yn Daclus ar restr fer y categori partneriaeth gorau yng ngwobrau Pwyllgor Cynghori Ailgylchu'r Awdurdod Lleol yn ddiweddar. Gwnaeth syniadau arloesol a gwaith caled y mae'r swyddogion ailgylchu yn eu gwneud bob dydd argraff fawr ar y panel dyfarnu.
>
> Bu'r Hyfforddwr Ffitrwydd, Phil Carleton, sy'n uwch hyfforddwr yng Nghanolfan Maendy, wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais i ddod yn Bencampwr y Byd camp grymgodi.
>
> Mae Neuadd Dewi Sant wedi ei gosod ar restr Deng Neuadd Gyngerdd â'r Sain Gorau yn y Byd. Yn ôl astudiaeth gan yr arbenigwr acwstig, Leo L. Beranek, Neuadd Dewi Sant yw'r 9fed ar y rhestr ac mae wedi curo lleoliadau byd-enwog megis y Royal Albert Hall a'r Sydney Opera House. Gall y ddinas fod yn falch bod un o'r neuaddau cyngerdd â'r sain gorau yn y byd yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Judith Woodman a ddaeth yn fam-gu am y tro cyntaf yn oriau cynnar 30 Medi. Rydyn ni'n dymuno'r gorau i'r Cynghorydd Woodman, ei mab, ei merch yng nghyfraith a'i ŵyr newydd, Maelon, Alfie.

Roedd yr Arglwydd Faer wrth ei bodd yn datgan bod swm y rhoddion a'r casgliadau ar gyfer Elusen yr Arglwydd Faer, Ymchwil Canser Cymru, wedi cyrraedd £8,500, yn cynnwys £472.36 a godwyd yn y diwrnod rhoddi dillad ffurfiol cyn cyfarfod y Cyngor y mis diwethaf.

Yn ogystal, mae ymgyrch y Cynghorydd Dilwar Ali i godi arian ar gyfer ei daith gerdded ar hyd Wal Tsieina ym mis Mai 2017 wedi codi £3745 hyd yn hyn a bu i'r Arglwydd Faer ddiolch i'r rhai a gyfrannodd.

Roedd yr Arglwydd Faer yn falch o fynd i ddigwyddiad Cyngor Mwslimiaid Cymru ar ddydd Llun 17 Hydref lle cafodd roddion hael ar gyfer yr elusen a diolchodd iddynt yn fawr iawn am gyfrannu.

Roedd yr Arglwydd Faer yn falch o gyhoeddi bod y digwyddiadau canlynol wedi eu trefnu:

- Noson Gyri'r Arglwydd Faer gan y Cynghorwyr Diwar Ali a Susan White ar 20 Tachwedd 2016 yng Nghlwb Rygbi Ystum Taf; a
- Bore coffi'r Nadolig yn y Plasty ddydd Mercher 14 Rhagfyr 2016.

Roedd yr Arglwydd Faer yn falch o gyhoeddi y byddai'r Cyngor yn goleuo'r Castell a Neuadd y Ddinas yn biws ym mis Tachwedd fel rhan o fis Ymwybyddiaeth o Gancr y Pancreas er mwyn nodi'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth bwysig hon.

## 88 : ADRODDIAD GWELLIANT STATUDOL CYNGOR DINAS CAERDYDD 2015/16

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad Gynllun Gwella Statudol Blynyddol y Cyngor er mwyn i'r Cyngor ei gymeradwyo. Cefnogwyd y cynnig gan y Cynghorydd Bale.

Roedd yr adroddiad yn werthusiad diannod adolygol o berfformiad 2015-16 ac yn dangos perfformiad y Cyngor o'i gymharu â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt a'r amcanion a thargedau gwella. Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o gofnodi gwelliannau perfformiad yn 70% o'r Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol o'u cymharu â 47.7% yn 2014-15. Roedd perfformiad 2015-16 yn well na'r gwelliant trwy Gymru, sef 65% a'r Cyngor oedd y trydydd Awdurdod Lleol a oedd wedi gwella fwyaf yng Nghymru.

Roedd y Cyngor hefyd yn gwneud cynnydd sylweddol ar raglen waith i ddatblygu a chynorthwyo sefydlu ei fframwaith rheoli perfformiad ymhellach er mwyn gweithredu cynllunio busnes a gwelliannau i adrodd ar berfformiad. Rhan bwysig o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yw datblygu dull cyson i osod targedau ar gyfer dangosyddion perfformiad trwy'r Cyngor, gan sicrhau bod y targedau'n bosibl eu cyflawni ac yn ddigon heriol.

Bu i'r Aelod Cabinet adrodd y cafwyd adborth cadarnhaol gan y rheolyddion statudol. Yn ei adroddiad ym mis Mawrth 2016, dywedodd Estyn fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol fel na fyddai angen monitro gan Estyn mwyach. Yn ogystal, adroddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mawrth 2016 am Wasanaethau Plant Cyngor Dinas Caerdydd fod Aelodau Etholedig a thîm Rheoli'r Cyngor wedi dangos dealltwriaeth gyffredin o'r arweiniad a'r hwb y mae eu hangen er mwyn sicrhau bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynorthwyo gwella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd yn effeithiol a bod asiantaethau partner yn strategol gysylltiedig ac roedd tystiolaeth o ddealltwriaeth ehangach o'r materion cymhleth sy'n wynebu'r Cyngor.

Daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad yn ei adroddiad dilynol bod y Cyngor wedi gwneud newid mawr o ran cyflawni canlyniadau gwell a mynd i'r afael â'r problemau sy'n parhau. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio Adroddiad Gwella Statudol Blynyddol y Cyngor ym mis Tachwedd 2016.

Parhaodd y Cyngor i weithio â Phwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad wrth adolygu a chraffu ar berfformiad.

Gwnaed y gwelliannau hyn mewn cyfnod o alw cynyddol am wasanaethau, twf yn y boblogaeth a heriau cyllidol mawr lle bu rhaid gwneud arbedion arian sylweddol o £113 miliwn.

Bu i'r Arglwydd Faer annog trafodaeth ar yr adroddiad ac atebodd y Cynghorydd Hinchey sylwadau gan Aelodau am flaenoriaethau; pwysau cyllidol ac arbedion; y galw am wasanaethau; gwella sgiliau'r gweithlu; rhoi gwasanaethau cymdogaeth ac uniongyrchol i gymunedau; cynyddu'r arian ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl a bwrw ymlaen â gwelliannau o ran perfformiad presenoldeb a salwch.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Gwella Blynyddol Statudol Cyngor Dinas Caerdydd er mwyn ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2016.

## 89 : CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATEGOL

Derbyniodd y Cyngor Canllawiau Cynllunio Ategol ar Dai Amlfeddiannaeth a Chyfleusterau Casglu Gwastraff a Storio i'w cymeradwyo, a fydd yn helpu cyflawni'r Agenda Dinas Byw a dod â newidiadau cadarnhaol i gymdogaethau.

Cynigiodd y Cynghorydd Patel, Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd y Canllawiau Cynllunio Ategol ar Dai Amlfeddiannaeth a chefnogodd y Cynghorydd Michael y cynnig.

Mae'r Canllawiau Cynllunio Ategol yn rhoi'r deunydd i'r Cyngor allu trin y cynnydd mewn Tai Amlfeddiannaeth a rheoli datblygiadau'r dyfodol er mwyn cynnal cymysgedd cytbwys o dai mewn cymunedau ac osgoi canlyniadau negyddol cysylltiedig â datblygiadau o'r fath a chynnig datblygu o safon uchel.

Cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Canllawiau Cynllunio Ategol ym mis Mai 2016 a derbyniwyd ystod eang o sylwadau, y'u hystyriwyd wrth lunio adroddiad y

Canllawiau Cynllunio Ategol ac a arweiniont at rai newidiadau i'r Canllawiau Cynllunio Ategol terfynol.

Bu i'r Arglwydd Faer annog trafodaeth ar y Canllawiau Cynllunio Ategol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth a chodwyd nifer o bwyntiau am y broses ymgynghori, yn benodol trafodaethau â phrif randdeiliaid; cynnydd parhaus yn nifer y Tai Amlfeddiannaeth; yr effaith ar gymunedau a neilltuo grwpiau mewn cymunedau; gwytnwch y Canllawiau Cynllunio Ategol a'r angen i'r Canllawiau Cynllunio Ategol gefnogi a gwella polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol.

Fel rhan o'r drafodaeth, cynigodd y Cynghorydd Carter Gais heb rybudd dan Reolau Gweithdrefn y Cyngor 25 (a) (iv) i gyfeirio'r adroddiad yn ôl i'r Cabinet a chefnogodd y Cynghorydd y cais.

Cynigodd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, y Cynghorydd Derbyshire y Canllawiau Cynllunio Ategol ar Gasglu Gwastraff a Chyfleusterau Storio ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth, a chefnogwyd y cynnig gan y Cynghorydd Michael.

Mae'r Canllawiau Cynllunio Ategol ar gyfer Gwastraff yn nodi gofynion lleiaf ar gyfer storio, casglu a chyflwyno gwastraff ar gyfer yr holl ddatblygiadau newydd (masnachol a chartrefi) ac mae'n disodli'r Canllawiau Cynllunio Ategol cynt nad oedd yn gyfoes o ran y dulliau casglu gwastraff presennol a'r gofynion storio ar gyfer datblygiadau newydd.

Y prif newidiadau oedd diweddaru'r gofynion storio ar gyfer pob annedd preswyl ar sail newidiadau diweddar y casgliadau, yn arbennig maint y biniau gwastraff gweddilliol y mae eu hangen; egluro pa finiau sydd ar gael a'r gofynion storio ar gyfer fflatiau 1 neu 2 ystafell wely; cyfeirio'n uniongyrchol at dai sydd wedi eu troi'n fflatiau a'r gofyn am storio gwastraff mewn ardal allanol a'r angen am ardal benodol ar gyfer gwastraff mawr ar gyfer pob datblygiad fflat sydd wedi ei greu at y diben. Yn ogystal, mae'r Canllawiau Cynllunio Ategol yn rhoi canllaw penodol a phethau i'w hystyried ar gyfer datblygwyr eiddo newydd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y sylwadau a dderbyniwyd gan y Cynghorwyr a'r rhanddeiliaid wedi eu nodi yn yr adroddiad.

Anogodd yr Arglwydd Faer drafodaeth a gwnaed sylwadau am faint y biniau a'r gofynion ar gyfer teuluoedd mwy. Yn gyffredinol, croesawodd yr Aelodau y Canllawiau Cynllunio Ategol hyn, yn arbennig y canllaw ar gyfer datblygwyr ar anghenion y dyfodol.

Ar ddiwedd y drafodaeth, cafwyd pleidlais ar gyfeirio'r Canllawiau Cynllunio Ategol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yn ôl drwy ddull codi dwylo. COLLWYD y cynnig i gyfeirio'n ôl.

Cafwyd pleidlais ar argymhellion yr adroddiad a chytunwyd arnynt.

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Ategol ar Dai Amlfeddiannaeth a Chasglu Gwastraff a Chyfleusterau Storio.

90 : ADRODDIADAU BLYNYDDOL HYRWYDDWR AELODAU

Derbyniodd y Cyngor ail ddrafftiau Adroddiadau Blynyddol yr Hyrwyddwr Aelodau dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Cynghorydd Ali Ahmed; yr Hyrwyddwr Aelodau dros Dyfu Bwyd yn y Gymuned, y Cynghorydd Gareth Holden a'r Hyrwyddwr Aelodau dros Feicio a Thrafnidiaeth Gynaliadwy, y Cynghorydd Iona Gordon yn nodi gweithgareddau, llwyddiannau ac awgrymiadau ar gyfer gwaith yn y dyfodol er mwyn sicrhau'r effaith orau ar y maes trafod cyffredinol a gwaith yr hyrwyddwyr unigol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Ali Ahmed ei adroddiad. Croesawodd Aelodau'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyrwyddo a chefnogi er mwyn annog amrywiaeth o ran yr Aelodau Etholedig a nodwyd bod y Cynghorydd Bowden, Cowan ac Ali Ahmed wedi bod yn fentoriaid i bobl yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn cyflwyno eu hunain mewn etholiad.

Nid oedd y Cynghorydd Holden yno ond cydnabuwyd ei adroddiad.

Cyflwynodd y Cynghorydd Gordon ei hadroddiad ac fel ymateb i sylwadau a wnaed, cytunodd i ddilyn y cynllun prynu beics i gyflogeion. Dywedodd yr Aelodau bod gwaith yr holl Hyrwyddwyr Aelodau yn parhau.

PENDERFYNWYD –

(1) bod yr adroddiadau blynyddol gan yr Hyrwyddwr Aelodau dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth; yr Hyrwyddwr Aelodau dros Dyfu Bwyd yn y Gymuned a'r Hyrwyddwr Aelodau dros Feicio a Thrafnidiaeth Gynaliadwy wedi eu derbyn a nodwyd bod yr Aelodau wedi eu canmol am y gwaith da a wnaethant dros y 12 mis diwethaf;

(2) cymeradwyo rolau'r tri Hyrwyddwr Aelodau tan ddiwedd blwyddyn ddinesig 2016-17 nes eu hadolygu gan y weinyddiaeth newydd.

91 : DATGANIADAU

Datganiad yr Arweinydd a Datblygu Economaidd a Phartneriaethau

Traddododd yr Arweinydd ddatganiad ar Gonfensiwn Caerdydd 2016; Strategaeth Pum Mlynedd Caerdydd Ddwyieithog; Caerdydd Gyfoes; Wythnos Ddemocratiaeth Leol Ewrop, 10 – 16 Hydref 2016; Prentisiaethau a choffáu Trychineb Aberfan hanner can mlynedd wedi'r dyddiad.

Atebodd yr Arweinydd gwestiynau ar Gonfensiwn Caerdydd; prentisiaethau a Strategaeth Pum Mlynedd Caerdydd Ddwyieithog.
Nododd yr Arweinydd y byddai'n rhoi gwybodaeth i Aelodau am ganlyniadau Confensiwn Caerdydd.

Datganiad yr Amgylchedd

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar Barciau; Gwasanaethau Profedigaeth; Gwobr Aur i Gartref Cŵn Caerdydd yn Seremoni Ôl-troed y RSPCA ar gyfer y gwaith a wnaed gyda chŵn crwydr a'u lles; Gwastraff ac Ailgylchu; a Gwasanaethau Cymdogaeth.

Atebodd yr Aelod Cabinet i faterion a godwyd ynghylch codi ysbwriel; ailgylchu; glanhau strydoedd; timau gwib lanhau; prentisiaethau; gorfodi casglu gwastraff; cyflwyno dirwyon ac adnoddau staff.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y buasai'n rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am nifer y dirwyon a gyflwynwyd a nifer y swyddogion gorfodi gwastraff y mae'r Cyngor yn eu cyflogi.

Datganiad Iechyd, Tai a Lles

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar Adolygiad Thematig Swyddfa Archwilio Cymru o'r Bartneriaeth â'r Adran Iechyd; Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches; Golden Oldies Cymru; Ail Ymgynghoriad Blynyddol ar Gyfranogiad Tenantiaid a'r Gwasanaethau Ataliol.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i faterion a godwyd ynghylch cymorth a roddir i blant ar eu pennau eu hunain, y dull cydlynol a ddilynir yng Nghaerdydd a'r gefnogaeth a geisir ac a gynigir gan awdurdodau cyfagos yng Nghymru. Rhoddodd yr Aelod Cabinet sicrwydd i'r Cyngor o'r trefniadau partneriaeth a'r gwaith ataliol sy'n mynd rhagddo i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghaerdydd ac yn bwysicach, y gweithio gyda'u hanghenion er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau bosibl.

Datganiad Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar Wobrau Cyfleoedd y Llywodraeth, Rhagoriaeth mewn Caffael Cyhoeddus Cymru yn 2016/17; Cyflog Byw; gwaith Academi Cyngor Dinas Caerdydd; Ymgyrch Carwch Eich Cartref; gwasanaethau C2C; Symud defnyddwyr e-bost Good i'r system newydd a Gwobr SOCITM i Phil Bear, Rheolwr Gwasanaeth TGCh.
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i'r materion a godwyd am y gwasanaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Estynnodd wahoddiad i'r Cynghorydd newydd ymweld â C2C i weld sut mae'n gweithio.

Y Dirprwy Arweinydd a Datganiad y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd

Traddododd y Dirprwy Arweinydd ddatganiad ar waith y Gwasanaethau Plant a oedd yn cefnogi'r ymateb cenedlaethol ar gyfer hwyluso trosglwyddo'r plant a oedd yn ceisio lloches o'r gwersyll yn Calais i'r DU fel mater o frys. Bydd Caerdydd yn cymryd rhan briodol yn yr ymateb i'r argyfwng dyngarol. Dros yr wythnos ddiwethaf, bu swyddogion yn gweithio'n ddwys gyda'r Swyddfa Gartref, CLILC a phartneriaid i gynnig ateb aml-gyfarwyddiaeth ac aml-asiantaeth dan arweiniad y Cyngor i hwyluso derbyn nifer o blant a ddaw o Calais ar eu pennau eu hunain yn syth.

Yr hyn sydd bwysicaf gennym ni yw diogelwch a lles y plant. Rydyn ni'n deall bod gan ran fwyaf y plant hyn berthnasau yn y DU. Disgwylir eu lleoli gyda pherthnasau

cyn gynted â phosibl mewn awdurdod lleol eraill yng Nghymru a Lloegr pan fydd yr awdurdodau lleol hynny wedi cwblhau'r trefniadau angenrheidiol.

Croesawodd yr Aelodau ddatganiad y Dirprwy Arweinydd.

92 : CYNNIG 1

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Dianne Rees a'i gefnogi gan y Cynghorydd Robson, wedi'i dderbyn a'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr Hysbysiad o Gynnig fel y cyflwynodd y Cynghorydd Dianne Rees fel a ganlyn:

Noda'r Cyngor y canlynol:

- Sefydlwyd nifer o wersylloedd teithwyr heb ganiatâd ym mharciau a mannau agored Cyngor Caerdydd.

- Pan gyflwynir hysbysiad troi allan i wersylloedd heb ganiatâd gan y Cyngor, nid yw'r hysbysiad ond yn gwahardd gwersyllwyd rhag dod yn ôl i barc neu fan gwag y Cyngor y maent ynddo ar hyn o bryd am dri mis.

- Mae rhai gwersylloedd heb ganiatâd yn gadael ysbwriel ac yn achosi difrod i'r parc ac i fannau agored y maent yn byw ynddynt. Yna, mae'n rhaid glanhau a thrwsio'r mannau hyn, ac fel arfer y trethdalwr sy'n talu.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet i wneud y canlynol:

1. Adolygu'r hysbysiad a gyflwynir i wersylloedd heb ganiatâd yng Nghaerdydd gyda'r bwriad o estyn yr hysbysiad fel ei fod yn atal y teithwyr rhag dod yn ôl i unrhyw barc neu fan agored y Cyngor.

2. Ymchwilio i weld a oes modd estyn yr hysbysiad fel ei fod yn atal rhag dychwelyd am gyfnod o chwe mis.

3. Ystyried mecanwaith ar gyfer dwyn achos sifil er mwyn adfer colledion y Cyngor.

Penderfynodd y Cynghorydd Robson, fel cefnogwr y cais, siarad yn hwyrach yn y drafodaeth.

Dywedodd yr Arglwydd Faer nad oedd unrhyw newidiadau i'r cynnig.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig. Yn ystod trafodaeth, cyflwynwyd cynnig heb rybudd gan y Cynghorydd Hunt a'r Cynghorydd Ben Thomas yn ei gefnogi dan Reol 25 (a) (ix) Gweithdrefn y Cyngor y dylid gofyn y cwestiwn.

Defnyddiodd yr Arglwydd Faer ei hawl i alw pleidlais ar y cynnig heb hysbysiad i ofyn y cwestiwn.

Derbyniwyd cais am bleidlais wedi ei chofnodi yn unol â Rheol 29 (d) Gweithdrefn y Cyngor.

Cefnogi (45): Y Cynghorwyr: Ali Ahmed, Aubrey, Bale, Bowden, Boyle, Bradbury, Bridges, Carter, Chaundy, Clark, Richard Cook, De'Ath, Derbyshire, Elsmore, Evans, Goddard, Goodway, Gordon, Hinchey, Howells, Hunt, Hyde, Keith Jones, Margaret Jones, Joyce, Knight, Lent, McGarry, Merry, Michael, Mitchell, Murphy, Parry, Patel, Phillips, Rea, Sanders, Simmons, Stubbs, Ben Thomas, Huw Thomas, Thorne, Weaver, White, Wild, Darren Williams a Woodman

Yn erbyn (10): Y Cynghorwyr Cowan, Graham, Hill-John, Hudson, Kelloway, McKerlich, Dianne Rees, Robson, Graham Thomas a Walker

Dal pleidlais yn ôl (1): Y Cynghorydd Lloyd

DERBYNIWYD y bleidlais dros y Cynnig i ofyn y cwestiwn

Cynigiodd yr Arglwydd Faer yr hawl i gynigydd y cynnig, y Cynghorydd Dianne Rees, ymateb cyn y bleidlais ar y Cynnig.

Gofynnwyd am bleidlais wedi ei chofnodi.

Cefnogi (9): Y Cynghorwyr Cowan, Graham, Hill-John, Hudson, McKerlich, Dianne Rees, Robson, Graham Thomas a Walker

Yn erbyn (45): Y Cynghorwyr: Ali Ahmed, Aubrey, Bale, Bowden, Boyle, Bradbury, Bridges, Carter, Chaundy, Clark, Richard Cook, De'Ath, Derbyshire, Elsmore, Evans, Goddard, Goodway, Gordon, Hinchey, Howells, Hunt, Hyde, Keith Jones, Margaret Jones, Joyce, Kelloway, Knight, Lent, McGarry, Merry, Michael, Mitchell, Murphy, Parry, Patel, Phillips, Rea, Sanders, Simmons, Stubbs, Ben Thomas, Graham Thomas, Huw Thomas, Thorne, Weaver, White, Wild, Darren Williams a Woodman

Dal pleidlais yn ôl (1): Y Cynghorydd Lloyd

METHODD y Cynnig.

93 : CYNNIG 2

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Darren Williams a'i gefnogi gan y Cynghorydd Joyce, wedi'i dderbyn a'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr Hysbysiad o Gynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn:

- Yn nodi bod cyflogau wedi gostwng ers 2010 mewn termau real tra mae prisiau wedi parhau i godi, sy’n rhoi pwysau cynyddol ar lawer o deuluoedd gweithgar yng Nghaerdydd.

- Yn gofidio dros ail-frandio’r Ceidwadwyr o’r Isafswm Cyflog Cenedlaethol fel y Cyflog Byw Cenedlaethol mewn ymdrech i geisio twyllo pobl i feddwl eu bod yn cael codiad cyflog.

- Yn dathlu bod y Cyngor Llafur hwn wedi talu’r Cyflog Byw fel y diffinnir gan Sefydliad y Cyflog Byw i’w holl gyflogeion ers mis Medi 2012. Ym mis Ebrill 2015, ni oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i ddod yn Gyflogwr Cyflog Byw swyddogol ac i annog yr holl gontractwyr sy'n gweithio i'r Cyngor hefyd i dalu cyflog byw i'w staff.

- Yn datgan bod llawer o gwmnïau a chyrff y trydydd sector o bob maint ledled Caerdydd yn cefnogi eu staff trwy dalu Gwir Gyflog Byw.

Felly rydym yn galw ar

(1) y Cyngor hwn i hyrwyddo Caerdydd fel Dinas Cyflog Byw trwy annog a chefnogi busnesau ac elusennau sydd am fod yn rhan o gynllun y Sefydliad Cyflog Byw; ac ar

(2) Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at Lywodraeth Lafur Cymru i archwilio ffyrdd o annog cyflogwyr eraill yn y ddinas i gytuno i dalu Gwir Gyflog Byw.

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod un newid i’r Cynnig wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Walker a’i gefnogi gan y Cynghorydd Cowan.

Roedd y diwygiad fel a ganlyn:
Dileu’r ddau bwynt bwled cyntaf a rhoi’r canlynol yn eu lle: -

- *Yn nodi bod y llywodraeth Geidwadol wedi datgan cyflog byw gorfodol ym mis Gorffennaf 2015, yn weithredol o fis Ebrill 2016, sef £7.20 yr awr, a fydd yn codi’n flynyddol. Wedi derbyn cyngor gan Gomisiwn y Cyflogau Isel y rhagfynegir y bydd y gyfradd fesul awr hon yn codi i £9 neu fwy erbyn 2020.*

  *Mae’r cyflog byw hwn 7.5% yn uwch na’r isafswm cyflog a oedd yn bodoli ar amser gwneud y cyhoeddiad.*

- *Yn nodi mai 0.6% oedd y cynnydd yn y Mynegrif Defnyddwyr yn y flwyddyn o fis Medi 2015 i 2016. Felly cafodd y rhai a oedd yn ennill cyflog isel wir gynnydd yn eu cyflogau ac nid ydynt yn talu treth £11,000 cyntaf eu hincwm.*

Newid y trydydd pwynt bwled i:

(i) Dileu’r holl eiriau wedi 2012 yn y frawddeg gyntaf a rhoi hyn yn eu lle: ‘pan gefnogwyd cynnig i’r Cyngor gan yr holl bleidiau gwleidyddol, talodd yr awdurdod hwn Gyflog Byw i’w holl gyflogeion.’

(ii) Yn yr ail frawddeg, dileu’r gair ‘ni’ a rhoi ‘Caerdydd’ yn ei le.

(iii) Yn y 4ydd llinell, wedi *'annog'* rhoi *‘yn gyntaf’. ‘*

<u>Byddai’r cynnig terfynol fel a ganlyn:</u>

Mae'r Cyngor hwn:

- Yn nodi bod y llywodraeth Geidwadol wedi datgan cyflog byw gorfodol ym mis Gorffennaf 2015, yn weithredol o fis Ebrill 2016, sef £7.20 yr awr, a fydd yn codi’n flynyddol. Wedi derbyn cyngor gan Gomisiwn y Cyflogau Isel y rhagfynegir y bydd y gyfradd fesul awr hon yn codi i £9 neu fwy erbyn 2020.

  Mae’r cyflog byw hwn 7.5% yn uwch na’r isafswm cyflog a oedd yn bodoli ar amser gwneud y cyhoeddiad.

- Yn nodi mai 0.6% oedd y cynnydd yn y Mynegrif Defnyddwyr yn y flwyddyn o fis Medi 2015 i 2016. Felly cafodd y rhai a oedd yn ennill cyflog isel wir gynnydd yn eu cyflogau ac nid ydynt yn talu treth £11,000 cyntaf eu hincwm.

- Yn dathlu’r ffaith bod yr awdurdod hwn wedi talu Cyflog Byw i’w holl gyflogeion ers mis Medi 2012 pan gefnogodd pob plaid wleidyddol gynnig i’r Cyngor. Ym mis Ebrill 2015, Caerdydd oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i ddod yn Gyflogwr Cyflog Byw swyddogol ac i annog yr holl gontractwyr sy'n gweithio i'r Cyngor hefyd i dalu cyflog byw i'w staff.

- Yn datgan bod llawer o gwmnïau a chyrff y trydydd sector o bob maint ledled Caerdydd yn cefnogi eu staff trwy dalu Gwir Gyflog Byw.

Felly rydym yn galw ar

(3) y Cyngor hwn i hyrwyddo Caerdydd fel Dinas Cyflog Byw trwy annog a chefnogi busnesau ac elusennau sydd am fod yn rhan o gynllun y Sefydliad Cyflog Byw; a

(4) Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at Lywodraeth Lafur Cymru i archwilio ffyrdd o annog cyflogwyr eraill yn y ddinas i gytuno i dalu Gwir Gyflog Byw.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig. Ar ddiwedd y drafodaeth gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Williams i grynhoi.

Gofynnodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y diwygiad a gynigodd y Cynghorydd Walker.

**COLLWYD** y bleidlais.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y cynnig fel y cyflwynodd y Cynghorydd Williams ef.

**DERBYNIWYD** y Cynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn:

- yn nodi bod cyflogau wedi gostwng ers 2010 mewn termau real tra mae prisiau wedi parhau i godi, sy'n rhoi pwysau cynyddol ar lawer o deuluoedd gweithgar yng Nghaerdydd.

- Yn gofidio dros ailfrandio'r Ceidwadwyr o'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol fel y Cyflog Byw Cenedlaethol mewn ymdrech i geisio twyllo pobl i feddwl eu bod yn cael codiad cyflog.

- Yn dathlu bod y Cyngor Llafur hwn wedi talu'r Cyflog Byw fel y diffinir gan Sefydliad y Cyflog Byw i'w holl gyflogeion ers mis Medi 2012. Ym mis Ebrill 2015, ni oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i ddod yn Gyflogwr Cyflog Byw swyddogol ac i annog yr holl gontractwyr sy'n gweithio i'r Cyngor hefyd i dalu cyflog byw i'w staff.

- Yn datgan bod llawer o gwmnïau a chyrff y trydydd sector o bob maint ledled Caerdydd yn cefnogi eu staff trwy dalu Gwir Gyflog Byw.

Felly rydym yn galw ar

(5) y Cyngor hwn i hyrwyddo Caerdydd fel Dinas Cyflog Byw trwy annog a chefnogi busnesau ac elusennau sydd am fod yn rhan o gynllun y Sefydliad Cyflog Byw; a

(6) Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at Lywodraeth Lafur Cymru i archwilio ffyrdd o annog cyflogwyr eraill yn y ddinas i gytuno i dalu Gwir Gyflog Byw.

94 : CWESTIYNAU LLAFAR

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sirol Clark*

Mae Prif Bolisi 17 Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2016 yn dweud, "Diogelir, rheolir a gwellheir caffaeliadau treftadaeth unigryw Caerdydd, yn arbennig cymeriad a lle ei Cherfluniau Hynafol Cofrestredig, yr Adeiladau Cofrestredig, y Tirluniau Hanesyddol Cofrestredig, Parciau a Gerddi, yr Ardaloedd Cadwraeth, yr Adeiladau Lleol Cofrestredig a phethau eraill o ddiddordeb lleol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad unigryw'r ddinas".

All pobl Caerdydd fod yn sicr bod treftadaeth y ddinas yn ddiogel yn nwylo'r weinyddiaeth trwy gadw at yr ymrwymiad hwn yn cynnwys ein hadeiladau Fictoraidd ac Edwardaidd yn yr ardaloedd cadwraeth?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Patel*

Mae gwarchod a gwella treftadaeth ein hadeiladau'n flaenoriaeth gan y Cyngor.

Cwestiwn ategol: *Y Cynghorydd Sir Clark*

Rwy'n bryderus iawn nad ydych wedi ateb fy nghwestiwn yn bendant gadarnhaol. Bu i'r Democratiaid Rhyddfrydol warchod ein treftadaeth yn dda. Er enghraifft, bu i ni adfer Capeli Cathays, Pwmp Dŵr Melin Gruffydd, Wal Anifeiliaid y Castell ac agor Stori Caerdydd.

Fodd bynnag, dan y weinyddiaeth Lafur, mae cyflwr y Gyfnewidfa Lo wedi dirywio, mae tir Prifysgol Sblot a'r Poet's Corner wedi eu dymchwel pan ddylai mwy o ymdrech fod wedi ei wneud yn lleol i'w rhoi ar y gofrestr. Ac mae'r Cyngor wedi diddymu ei gefnogaeth i'r grwpiau cadwraeth felly mae hi'n anos gwarchod ein hardaloedd cadwraeth.

A gytunwch chi fod hanes y weinyddiaeth hon o ran ein treftadaeth wedi bod yn drallodus?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Dydw i'n sicr ddim yn cytuno â chi.

Ac rwyf i am eich cywiro: - Gweinyddiaeth y Rhyddfrydwyr Democrataidd a fethodd yn llwyr o ran y Cynllun Datblygu Lleol a pheidio â sefydlu unrhyw ddulliau arbedol. Felly dydw i ddim am dderbyn darlith gennych chi nac unrhyw un arall am osod dulliau gwarchod. Ni wnaeth eich plaid chi unrhyw beth chwaith am y Tai Amlfeddiannaeth yn Cathays a Phlasnewydd nac unrhyw beth dros dreftadaeth.

Cwestiwn ategol**:** *Y Cynghorydd Sir Stubbs*

Ydych chi'n cytuno bod Cynghorwyr Lleol Llafur wedi brwydro'n dda i achub bargen y Brifysgol ac nad yw cynllunio'n fater gwleidyddol, a bod awgrymu bod y Pwyllgor Cynllunio yn wleidyddol yn camu tua thir peryg?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Patel*

Yn sicr, ac rwy'n credu y dylai'r Cynghorydd Clark ymddiheuro wrth y Pwyllgor Cynllunio am ei sylwadau gwarthus.

Eglurhad personol (Rheol 11 (i)): *Y Cynghorydd Sir Clark*

Dywedodd y Cynghorydd Clark na chyfeiriodd at y Pwyllgor Cynllunio yn ei chwestiwn a'i bod yn ymwybodol bod y Cynghorydd Michael, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn awyddus i beidio â chynnwys gwleidyddiaeth ym musnes y pwyllgor.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Walker*

Mae eich cynnig yn y Cyngor yn cyfeirio at y pwysau costau byw y mae'r rhai sy'n ennill cyflogau isel yn ei deimlo. Ond eto, rydych wedi codi'r Dreth Gyngor gan yr uchafswm a ganiateir bob blwyddyn ers i chi ddod yn Arweinydd, a chynyddon uwch na llawer o gynghorau eraill yn y DU.  Wrth gydnabod mai'r rhai sy'n derbyn y cyflogau isaf sy'n dioddef fwyaf o gynyddu trethi, rydych yn gwrthddweud yn llwyr eich camau yn ystod eich tymor a safiad gwleidyddol eich grŵp a'r cwynion cyhoeddus. A wnewch chi felly ymrwymo i sicrhau eich bod yn chwilio am ffyrdd i gadw trethi'r cyngor yn isel ac osgoi effeithio'n waethaf ar y rhai sy'n ennill y lleiaf yn y gyllideb nesaf?

Ymateb**:** *Y Cynghorydd Sir Bale*

Mae eich datganiad ein bod wedi cynyddu'r Dreth Gyngor gan yr uchafswm, yn syml, yn anghywir. Roedd y cynnydd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn fwy neu lai yr un peth â'r cynnydd trwy Gymru ac wrth gwrs, yn wahanol i Loegr, does dim "uchafswm" o ran cynnydd yn y Dreth Gyngor yma yng Nghymru. Mae ffigyrau Llywodraeth y DU yn dangos bod 77%, sef 134 o 174 awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu Treth Gyngor cyfartalog Band D gan fwy na Chaerdydd yn y flwyddyn ariannol hon.

Ac fel y bydd Aelodau'n gwybod, mae'r Grŵp Ceidwadol wedi galw eto ac eto am gynnydd llai mewn Treth Gyngor, ond mae wedi gwrthod dweud pa rai o wasanaethau y byddai'n eu torri yn lle hynny. Bydd y weinyddiaeth Lafur hon yn parhau i ddiogelu gwasanaethau hanfodol i bobl Caerdydd, gwasanaethau y mae'r bobl sy'n ennill y cyflogau isaf a'r bobl sy'n agored i niwed yn dibynnu arnynt.
Nid yn unig rydyn ni'n gyflogwr Cyflog Byw, ond rydyn ni hefyd wedi parhau i gefnogi a diogelu'r Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor sydd wedi ei lunio er mwyn helpu'r rhai sy'n ennill cyflogau isel. Ac mae cyllideb o £29.5 miliwn eleni ar gyfer hwn, cyllideb sydd wedi cynyddu bob blwyddyn er mwyn helpu i reoli effaith unrhyw gynnydd ar bobl sy'n fwyaf agored i niwed yn y ddinas.

Cwestiwn ategol**:** *Y Cynghorydd Sir Walker*

Roedd y setliad yn well na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru yn syndod i lawer. Ac rydyn ni'n gwybod bod etholiad ar y gorwel; yn rhyfedd iawn, mae patrwm o gael setliadau gwell pan mae etholiad ar y gorwel.

Ydych chi'n rhagweld y bydd modd i chi newid y ffigwr uchel yr oeddech chi wedi ei ragweld ar gyfer cynnydd yn y Dreth Gyngor nawr wedi cael y setliad gwell na'r disgwyl?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bale*

Yn amlwg, byddai'n rhaid i mi ystyried ystod eang o ffactorau dros y misoedd nesaf. Byddwn yn ymgynghori ar y gyllideb – y gyllideb ddrafft – pan ddaw'r amser, a byddwn yn gwrando ar yr adborth rydyn ni'n ei dderbyn gan aelodau'r cyhoedd am hynny hefyd.

Cwestiwn ategol**:** *Y Cynghorydd Sir Mitchell*

Yn amlwg, nid yw heb yn hoff o godi'r Dreth Gyngor. Ond pan ydym yn colli degau a channoedd o filoedd o bunnoedd dros lawer o flynyddoedd, yn anffodus mae 1% yn cyfateb i £1 miliwn, sydd, hyd yn oed petai'n 5%, ond megis piso dryw bach yn y môr. Ond, dydw i'n sicr ddim yn gweld y cynnydd yn fwy na 3%.

Oni fyddech chi'n cytuno ymgyrchu, neu ymuno ag ymgyrchoedd, i ofyn i Lywodraeth y DU adennill rhywfaint o'r £119.4 biliwn sy'n mynd dramor trwy gynlluniau osgoi trethi, twyllo treth ac ymddiriedolaethau tramor?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bale*

Yn amlwg, San Steffan sy'n gyrru'r polisi o gyni cyllidol. Mae hyn yn rhywbeth sy'n digwydd ers llawer iawn o flynyddoedd. Dros y degawd diwethaf, mae dros £200 miliwn wedi ei gymryd o gyllideb y Cyngor hwn yn unig. Yn blwmp ac yn blaen, nid yw hyn yn gynaliadwy.

Rydyn ni wedi gweld ar ardreth o 2% yn Lloegr ar filiau'r Dreth Gyngor er mwyn ceisio cyfyngu'r bwlch o ran costau gofal cymdeithasol. Ond nid yw'n agos at fod yn ddigon i'r awdurdodau lleol allu llenwi'r bwlch hwnnw. Ac rwy'n credu y daw pwynt yn fuan iawn, yn arbennig yn Lloegr lle mae'r toriadau wedi bod cymaint fel bod rhai gwasanaethau hanfodol yn y fantol. Rydyn ni yn gweld hynny eisoes o ran yr effaith anuniongyrchol ar rannau eraill y gwasanaeth cyhoeddus, yn cynnwys y GIG yn Lloegr. Rwy'n credu bod hyn yn rhywbeth rydyn ni i gyd am ei osgoi. Felly, byddaf yn sicr yn gwneud fy ngorau i lobïo'r llywodraeth yn San Steffan er mwyn sicrhau ein bod yn cael y fargen orau bosibl ac yr ail ddosberthir yr arian i gynnal gwasanaethau cyhoeddus trwy'r wlad.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Hunt*

All Arweinydd y Cyngor roi newyddion diweddaraf y gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghronfa Ddŵr Llanisien?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bale*

Fel rydych yn gwybod, mae rhoi cynllun o safon uchel ar waith yng Nghronfa Ddŵr Llanisien sy'n canolbwyntio ar amwynder yn flaenoriaeth gan Gyngor y Ddinas.

Mae swyddogion y Cyngor wedi cynnig cyngor i Dŵr Cymru am agweddau treftadaeth ac ecolegol ar y cronfeydd wrth iddynt geisio cyflawni eu cyfrifoldeb i ddiogelu'r safle.

Ar yr un pryd, mae trafodaeth yn mynd rhagddi â Dŵr Cymru er mwyn ceisio dod i ddeall beth yw eu bwriad ar gyfer y safle yn y dyfodol. Maent wedi datgan yn gyhoeddus eu bod yn ymrwymo i agor y gronfa ddŵr i'r cyhoedd ac ystyried cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn y gronfa.

Cwestiwn ategol**:** *Y Cynghorydd Sir Hunt*

Dydw i ddim yn gwybod a gafodd yr Arweinydd gyfle i wylio rhywfaint o'r gemau Olympaidd. Roedden nhw'n digwydd yn llawer yn rhy hwyr i mi felly welais i ddim

llawer ohonyn nhw. Ond rwy’n credu bod un o’n henillwyr medel, Hannah Mills, wedi dysgu hwylio ar y gronfa ddŵr. Ys gwn i, o ystyried hyn, a oes unrhyw syniad y gallwn ddod â hwylio’n ôl i’r cyfleuster?

Ymateb**:** *Y Cynghorydd Sir Bale*

Rydych chi’n gywir. Rwy’n deall, wedi siarad â theulu Hannah Mills a dweud y gwir, bod Hannah wedi dysgu mewn cwch bach ar Gronfa Ddŵr Llanisien yn ifanc a bod hynny wedi arwain at ennill medel aur y gemau Olympaidd, sy’n llwyddiant ardderchog yr ydw i’n siŵr yr hoffai pawb yn y siambr longyfarch Hannah a'i theulu amdano.

Ac rwy’n cyfarfod Dŵr Cymru’r wythnos nesaf ac yn sicr yn gobeithio dechrau trafodaeth â nhw ynghylch sut y gallwn gynnwys rhyw fath o gydnabyddiaeth o lwyddiant Hannah mewn cynllun cronfa ddŵr yn y dyfodol. Fe roddaf yr wybodaeth ddiweddaraf i chi'n rheolaidd.

Cwestiwn ategol**:** *Y Cynghorydd Sir Walker*

Rwy’n siŵr yr hoffech ymuno â mi wrth longyfarch Grŵp Gweithredu’r Gronfa Ddŵr, sydd yn wir wedi bod ar flaen y gad o ran gwneud i bethau ddigwydd. Maen nhw wedi derbyn cefnogaeth gan aelodau o’r holl bleidiau gwleidyddol ac rwy’n gwybod nad ydych chi'n ceisio elwa eich hunain o hyn.

Ond rwy’n credu bod y Cynghorydd Hunt wedi gwneud pwynt teg am yr hwylio, oherwydd bod hwylio ar y gronfa wedi arwain nid yn unig at lwyddiant Hannah, ond at nifer o bencampwyr Prydain, Ewrop, y byd a'r gemau Olympaidd.  Mae hyn yn anhygoel i ddarn bychan o ddŵr. Felly, mae’n bwysig i ni adennill y cyfle hwn.

Yr hyn rwy'n ofyn yw, pa bryd y byddan nhw'n barod i dynnu'r ffens, y ffens ddiolwg fetel sydd o amgylch y safle ar hyn o bryd?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bale*

Fel y gwyddoch efallai, ac fel rwy’n siŵr y darllenoch yn ein maniffesto, gwnaethom addewid, ymrwymiad, i ymgyrchu a gweithio er mwyn ailgyflwyno hwylio yng Nghronfa Ddŵr Llanisien Ac mae hyn yn rhywbeth y mae'r weinyddiaeth Lafur yn awyddus i’w ddilyn yn y dyfodol.

Rwy’n derbyn eich sylwadau am gyflwr y safle ar hyn o bryd. Mae Dŵr Cymru wedi bod yn glir iawn nad ydyn nhw am gadw'r mathau hyn o rwystrau yn yr hirdymor. Ond mae rhesymau ar hyn o bryd dros gyfyngu ar y mynediad er mwyn dod â Chronfa Ddŵr Llanisien yn ôl i gyflwr gweithredol. Ond pan fo hynny wedi digwydd, ac wedi i mi fynd i'r cyfarfod yr wythnos nesaf, byddaf i mewn sefyllfa well i roi newyddion i chi am gynlluniau hirdymor ar gyfer adfywio ac ailddatblygu’r ardal.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Rea*

Beth yw polisi’r Cyngor ar gynnal y man glas caeëdig nad oes mynediad iddo i’r cyhoedd.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Nid oes gan y Cyngor bolisi ffurfiol ar gynnal tir caeedig heb fynediad iddo oherwydd y trafodir hyn fesul safle.

Cwestiwn ategol: *Y Cynghorydd Sir Rea*

Ydy hi’n bolisi gan y Cyngor i flaenoriaethu’r ardaloedd hyn yn ystod cyfnod etholiadau? Mae un ardal benodol yn fy ward a gafodd ei chlirio pan oedd etholiadau yn unig.

Rhoddwyd sicrwydd i breswylwyr y byddai safle’n cael ei chlirio’n rheolaidd wedi dymchwel adeilad yn Cross Street, ond unwaith, yn ystod is-etholiad Plasmawr yn unig y digwyddodd hyn.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Gallaf sicrhau'r Cynghorydd na ystyrir natur wleidyddol y wardiau o gwbl wrth i ni wneud y pethau hyn.

Cwestiwn ategol**:** *Y Cynghorydd Sir Lent*

All yr Aelod Cabinet gadarnhau bod Cynghorwyr Llafur Plasnewydd wedi trafod ac ymgynghori â phreswylwyr lleol ar y mater hwn am nifer o fisoedd?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Rwy’n gwbl fodlon cadarnhau hynny, Gynghorydd Lent. Roedd y Cynghorydd Rea’n cyfeirio at y darn o dir a pham y gwnaethpwyd hynny. Rwy’n credu mai’r rheswm y digwyddodd pan ddigwyddodd oedd o ganlyniad i lobïo gan Gynghorwyr lleol dros dacluso’r lle. Felly, roedd y Cyngor yn falch o wneud hynny.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Cowan*

Sawl rheolwr dros dro rydyn ni'n eu cyflogi ar lefel Rheolwr Gweithredol ac uwch yn ôl Cyfarwyddiaeth, a faint rydyn ni’n talu pob rheolwr dros dro a sut mae hynny’n cymharu â chyflog y swydd barhaol?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Natur swydd dros dro fel arfer yw nad yw’r person yn cael ei “gyflogi” gan yr awdurdod fel cyflogai dan gytundeb gwaith.

Mae’r Cyngor yn caffael rheolwyr dros dro trwy Commensura, ein gwasanaeth a reolir gan asiantaethau. Fel arfer, dydy'r math hwn o swyddi ddim yn cynnig tâl gwyliau, cyfnodau salwch na chyfraniadau pensiwn felly mae'r tâl yn uwch na'r tâl ar gyfer y swydd barhaol, er mwyn adlewyrchu hynny.

Ar hyn o bryd, un rheolwr dros dro sydd ar y lefel hwn yn yr awdurdod, sef Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant. Adlewyrchir hyn ar dudalennau 58 a 59 Datganiad Cyfrifon y Cyngor a gymeradwyodd y Cyngor y mis diwethaf.

Fel y gwyddoch, rydyn ni wedi ceisio recriwtio ar gyfer y swydd hon bedair gwaith. Fel yr Aelod Cabinet cyfrifol, rwy’n awyddus i geisio sicrhau nad ydyn ni’n ei gwneud hi’n anos fyth i recriwtio staff uwch da trwy roi gwybodaeth i’r cyhoedd sy’n annog lladd arnyn nhw.

<u>Cwestiwn ategol</u>**:** *Y Cynghorydd Sir Cowan*

Er mwyn peidio ag achosi rhagor o embaras i’r Cyngor, byddaf i'n trafod y mater hwn y tu allan i Siambr y Cyngor oherwydd rwy'n gwybod bod y nifer rydych chi wedi ei nodi yn anghywir ac mae gen i dystiolaeth i gefnogi hynny.

<u>Ymateb</u>**:** *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Byddaf i’n falch wybodaeth honno oherwydd mae'n rhaid bod gan y Cynghorydd Cowan ragor o wybodaeth gan y Gwasanaethau AD.

<u>Cwestiwn ategol</u>**:** *Y Cynghorydd Sir Hunt*

All yr Aelod Cabinet gadarnhau bod adolygiad diweddar yr AGGCC o’r Gwasanaethau Plant wedi rhoi pwyslais ar bwysigrwydd sefydlogrwydd yn y maes penodol hwn.

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Yn bendant. Mae’n siŵr eich bod chi'n fwy ymwybodol nag unrhyw un. Rhoddodd adroddiad yr AGGCC ymateb da, cadarnhaol i’r arolwg diweddar ac felly mae sefydlogrwydd wedi bod yn hanfodol dros y pedair blynedd diwethaf, yn enwedig o ystyried nifer y plant mewn gofal sy’n dod i Gaerdydd fel ardal ailsefydlu a’r pwysau cynyddol yng Nghaerdydd.

Rwy’n credu ein bod wedi trafod, yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, bod 30 o blant ychwanegol wedi dod i Gaerdydd fel plant mewn gofal o fewn cyfnod o chwe wythnos. Felly, yn sicr, mae angen sefydlogrwydd.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Gordon*

Ydych chi’n fodlon bod y canllaw cynllunio yn yr ardaloedd cadwraeth yn cael ei fonitro’n drylwyr?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Mitchell*

Cwblhawyd adolygiad dinas gyfan o’r 27 ardal gadwraeth yng Nghaerdydd yn 2009. Mae pob ardal wedi mabwysiadu Gwerthusiad Ardal Gadwraeth i ddisgrifio ei agweddau pensaernïol neu hanesyddol arbennig er mwyn helpu i lywio penderfyniadau rheoli datblygu er mwyn cadw cymeriad a delwedd yr ardal.

Bydd gwaith monitro ac arolygon yn digwydd yn rheolaidd ac ar gais pan fo materion gorfodi penodol neu gyfleoedd i wella'n codi.

Cwestiwn ategol**:** *Y Cynghorydd Sir Gordon*

Rwyf i wedi derbyn pryderon o wahanol ardaloedd cadwraeth am dramgwyddo yn yr ardaloedd cadwraeth hynny. Ac mae'r Gymdeithas Fictoraidd wedi cynnig ceisio trefnu seminar. Ddeallais i ddim bod 27 ardal gadwraeth yn ein dinas. Ond fe hoffen nhw dderbyn adborth am beth maen nhw'n meddwl sy'n digwydd yn yr ardaloedd cadwraeth ac ystyried roeddwn i a ydych chi'n credu y byddai'n well iddyn nhw rannu eu canfyddiadau yn y cyfarfod hwn gyda chi ynteu a hoffech chi i'r Swyddogion Cynllunio sy'n gweithio yn y gadwraeth ddod i'r cyfarfod.

Ymateb**:** *Y Cynghorydd Sir Mitchell*

Rwyf i bob tro'n fodlon ystyried sylwadau unrhyw un. Rydyn ni'n cadw cofnod o hyn yn daer ac mae peth dryswch weithiau pan mae pobl yn meddwl eu bod yn gweld tramgwydd, nid tramgwydd mohono. Hynny yw, TAN 9 sy'n nodi a oes angen gorfodi, ac rydych chi'n parhau i drafod nes taro deuddeg.

Ond rwy'n fwy na bodlon cyfarfod â'r Cynghorydd Gordon a Swyddogion eraill i drafod unrhyw awgrymiadau yr hoffech chi eu gwneud.

Cwestiwn ategol: *Y Cynghorydd Sir Boyle*

Rwy'n siarad yn benodol am ardal gadwraeth Gerddi Melin y Rhath ac mae'r canllaw ar yr ardal honno'n dweud y dylai unrhyw adeilad newydd, unrhyw adeilad *newydd,* gael ei ddylunio fel bod y ffurf a'r maint mewn harmoni â'r ardal ac mai prif egwyddor yr ardal gadwraeth yn cadw neu wella'r cymeriad.

Ys gwn i, o'ch profiad chi, sut y dehonglir y canllaw hwn os cynigir datblygiad newydd ar gynllun sy'n amlwg yn gyfoes mewn strydlun sy'n gyson Edwardaidd?

Sut yr ystyrir y cynllun modern hwnnw os caiff ei gynnig mewn ardal gadwraeth Edwardaidd?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Mitchell*

Dydw i ddim yn credu bod ardaloedd cadwraeth yn rhywbeth y dylen ni eu rhewi fel na fydd newid fyth. Mae ardaloedd cadwraeth yn newid. Ac un o'r pethau rydyn ni'n hoff ohonyn nhw fel pwyllgor cynllunio yw rhywbeth radicalaidd, rhywbeth gwahanol. Ac os ydyn ni'n derbyn rhywbeth felly, byddwn ni'n ei farnu yn ôl ei deilyngdod a byddwn ni'n ystyried y meini prawf cadwraeth. Felly, does dim gwaharddiad pendant.

A chanllaw cynllunio yw hyn, ac mae'n bwysig cadw'r cydbwysedd. Felly nid yw'n achos o ddatgan "*Mae'n ardal gadwraeth, felly rydyn ni'n ei rhewi, wnawn ni ddim byd yma."* Canllaw cynllunio ydyw, ac rydyn ni'n cydymffurfio.

Cwestiwn**:** *Y Cynghorydd Sir Woodman*

Allai'r Aelod Cabinet roi newyddion i'r Cyngor am y gwaith y mae e wedi ei wneud hyd yn hyn i hwyluso mabwysiadu ystadau newydd?

Ymateb**:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Mae mabwysiadu ffyrdd newydd a mannau cyhoeddus yn flaenoriaeth gan y Cyngor er mwyn sicrhau cyrraedd safonau uchel er budd preswylwyr.

Fodd bynnag, bu oedi yn gysylltiedig â rhai ystadau oherwydd trafferthion a wynebodd y datblygwyr wrth gael Dŵr Cymru i fabwysiadu'r draeniau. Gwyddoch fod hon yn broblem ers degawd neu hirach ac nad yw'n wahanol i oedi o'r fath sydd wedi digwydd mewn awdurdodau lleol eraill.

Rwy'n gwybod bod Aelodau'r Cabinet a swyddogion wedi bod yn rhagweithiol o ran ceisio hybu datrys y problemau hyn. Fodd bynnag, mae'r grym cyfreithiol cyfyngedig sydd gennym ni'n amharu ar ein gallu.

Cwestiwn ategol: *Y Cynghorydd Sir Woodman*

Rwy'n bryderus iawn, ac rwy'n sicr eich bod chithau'n rhannu'r pryder, bod preswylwyr Gerddi Wyncliffe ym Mhentwyn wedi bod yn aros degawd, er bod Cynghorwyr lleol wedi bod yn cysylltu â'r Cyngor yn rheolaidd am hyn.

Ydych chi'n credu y gallwch wneud mwy gyda Dŵr Cymru a'r datblygwyr? Oherwydd mae gennym ni lawer o ystadau a fydd yn codi yn y ddinas yn y dyfodol, yn y dwyrain a'r gorllewin. Ydych chi'n credu y gallech chi wneud rhagor er mwyn ceisio sicrhau eu bod nhw'n cymryd hyn o ddifrif a galluogi mabwysiadu o fewn pum mlynedd? Dydy hyn ddim yn afresymol, ond am ryw reswm, mae datblygwyr yn oedi.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Patel*

Gallaf i roi gwybod i chi bod mabwysiadu'r ffyrdd yng Ngerddi Wyncliffe ym Mhentwyn yn agos iawn. Yr unig fater sydd ar ôl yw trosglwyddo'r tir sy'n cynnwys dwy troedffyrdd i'r Cyngor ac i breswylwydd [cyfagos?] a bydd y rhain yn cael eu heithrio o'r gwaith a fabwysiedir. Mae Swyddogion wedi cael gwybod bod y broses drosglwyddo ar gyfer y rhain ymhell ar ei ffordd ac na fydd hir cyn cwblhau.

Mae hi hefyd yn bwysig dangos rhai o'n llwyddiannau dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mabwysiadu'r ffyrdd a rhan o'r man cyhoeddus agored yn hen safle AWR yn Llanisien. A digwyddodd hyn oherwydd y pwysau a roesom ni fel Aelodau'r Cabinet a'r Swyddogion ar y datblygwyr.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Hudson*

Allwch chi ddweud wrthym beth yw costau Cynllun Adfywio Caerphilly Road a Chynllun Gwella Trafnidiaeth a Hygyrchedd yr A469 a hefyd beth yw'r gosb, os oes un am fynd heibio'r terfynau amser?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Patel*

Y gwariant a ragfynegir ar gyfer cynllun adfywio Canolfan Siopa Llwynbedw yw £228,176.

Y gwariant a ragfynegir ar Gynllun Trafnidiaeth Lleol Caerphilly Road A469 er mwyn gosod lonydd bysus ar y ffordd brifwythiennol yw £2,285,642. Mae Grant Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn talu am y cynllun hwn yn llawn ac mae'n mynd rhagddo yn ôl yr amserlen.

Cwestiwn ategol**:** *Y Cynghorydd Sir Hudson*

Allwch chi gadarnhau a yw rhannau o'r cynlluniau hyn, y ddau, yn ddiffygiol ac a ydyn nhw eisoes wedi eu newid?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Patel*

Allaf i ddim ymateb i ddyfaliad, yn anffodus. Hynny yw, os ydych yn dweud bod rhywbeth yn ddiffygiol, mae arna i angen gwybod pa rannau rydych yn credu sy'n ddiffygiol. Ac os ydych chi'n credu hynny, da chi, cysyllTwch â mi a'r Swyddogion a byddwn ni'n fwy na bodlon trafod y pethau hynny â chi.

Cwestiwn ategol: *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Ydych chi'n cytuno bod y buddsoddiad ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor rydych newydd sôn amdano yn rhoi mannau parcio newydd i breswylwyr; cyfleusterau gwell a mwy diogel ar hyd y ffyrdd; gwella'r coed. Ydych chi'n cytuno, ar y cyfan, bod y buddsoddiad wedi bod yn fuddsoddiad y bu hirymaros amdano i briffordd i mewn i Gaerdydd?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Patel*

Yn sicr, ac rwyf i wedi bod ar hyd Caerphilly Road; es i yno cyn y gwelliannau ac rwyf i wedi bod yno ers y gwelliannau. Ac rwyf i wedi gweld gwelliannau enfawr.

Mae hyn yn gysylltiedig â'r newid dull 50/50 a'r newid dull 60/40. Yr hyn y mae'n rhaid i ni wneud yw annog mwy a mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Ac wrth gwrs, pan ydych yn dechrau defnyddio lonydd bysus, mae hefyd o fudd i'r beicwyr.

Ac mae gennym, mae gennym ni goridor sy'n agos at yr ysbyty hefyd. Felly, mae bellach yn ffordd wych lle mae pobl sydd am fynd i'r ysbyty a'r staff yn gallu cyrraedd yno'n llawer cynt ar y llwybr bws sydd wedi ei roi yno.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Parry*

Yn dilyn y buddsoddiad gwerth £6.5 miliwn yn Dwyrain Actif i'w wneud yn gyfleuster cymunedol go iawn. All yr aelod cabinet dros eiddo gweithredol roi enghreifftiau o fuddsoddiad arall yn ein hadeiladau ar hyd y ddinas gan y Cyngor Llafur hwn, sydd o fudd i bobl Caerdydd?

Ymateb**:** *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Mae strategaeth pum mlynedd y Cyngor yn ceisio sicrhau llai o adeiladau ond adeiladau gwell ac mae'n ceisio moderneiddio, cwtogi ar a defnyddio adeiladau ar y cyd.

Mae enghreifftiau o sut rydyn ni wedi buddsoddi yn ein heiddo gweithredol yn cynnwys ein Hybiau ar draws y ddinas. Rydyn ni wedi rhoi £8.7 miliwn ar gyfer Hyb STAR, £1.3 miliwn ar gyfer Hyb Grangetown a £740,000 ar gyfer Hyb Cymunedol Trelái a Chaerau.
Rydyn ni hefyd yn buddsoddi £165 miliwn yn ysgolion Caerdydd ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'n Cynllun Trefniadaeth Ysgolion, sy'n cynnwys ysgolion cynradd newydd ac ysgolion uwchradd newydd yn nwyrain ac yng ngorllewin y ddinas.

Rydyn ni hefyd yn buddsoddi i leihau maint y gwaith cynnal sy'n aros i'w wneud ar ein heiddo gweithredol ac mae £4 miliwn o gyfalaf ar gael yn flynyddol er mwyn cadw adeiladau'n weithredol. Fodd bynnag, mae angen i ni barhau i reoli buddsoddiadau o'r fath er mwyn sicrhau eu bod nhw'n aros yn fforddiadwy nawr ac yn y dyfodol.

<u>Cwestiwn ategol:</u> *Y Cynghorydd Sir Parry*

Mae Canolfan Hamdden y Dwyrain, sydd newydd ei hadnewyddu, a Llyfrgell a Hyb Tredelerch sydd newydd ei adnewyddu yn gaffaeliadau da nawr i bobl dwyrain y ddinas. Rwy'n credu mai dyna'r cwbl y mae angen i mi ei ddweud yna.

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Rwy'n falch iawn bod un o'r Aelodau lleol yn fodlon ar y moderneiddio a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig yn nwyrain y ddinas. Mae Dwyrain Actif, rwy'n credu mai dyna'r brand newydd maen nhw'n ei ddefnyddio yno, ar agor ac mae'r adborth yn hynod dda hyd yn hyn. Ac rwy'n credu bod y Cynghorydd Bradbury ar fin cynnal agoriad swyddogol yn fuan ac rwy'n siŵr y bydd e'n eich gwahodd chi a'r Aelodau lleol yn nwyrain y ddinas.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Sanders*

Ac eithrio plant a phobl ifanc y mae arnyn nhw angen, er eu diogelwch eu hunain, eu rhoi'r tu allan i'r ddinas, sawl plentyn sy'n derbyn gofal, yn ôl oedran, rhyw a math y lleoliad, yn cynnwys maethu preifat sy'n byw y tu allan i'r ddinas ers mis Medi 2016?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Hunt*
Gallaf gadarnhau roedd 223 o blant wedi eu rhoi "y tu allan i'r sir" ar 30 Medi 2016. Mae hyn yn cynnwys plant sydd wedi eu rhoi mewn awdurdodau lleol cyfagos.

Byddwn i'n hapus i roi manylion oedran, rhyw a math lleoliad y plant ar ôl y cyfarfod. Nid yw'r rheoliadau'n caniatáu rhoi plant "y tu allan i'r sir" mewn trefniadau maethu preifat. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw hyn os oes trefniadau maethu preifat.

<u>Cwestiwn ategol:</u> *Y Cynghorydd Sir Sanders*

O ystyried y cynnydd yn nifer y plentyn sy'n derbyn gofal, sut y byddwch chi'n cynyddu'r lle yn y ddinas fel y gall plentyn sy'n derbyn gofal aros yn agos at lle mae eu gwasanaethau cymorth?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Hunt*

Fel y gŵyr y Cynghorydd Sanders, bu ymgyrch faethu fawr yn ddiweddar. A dyna'r brif ffordd rydyn ni'n ceisio cynyddu'r lleoedd. Rydyn ni'n benodol yn ceisio denu gofalwyr maeth a all gymryd gwahanol oedrannau, grwpiau o frodyr a chwiorydd a.y.b. Felly rydyn ni wedi bod yn newid ein ffocws i ateb anghenion plant y mae angen i ni ganfod llety ar eu cyfer.

<u>Cwestiwn ategol:</u> *Y Cynghorydd Sir Walker*

Rwy'n cymryd, Gynghorydd, eich bod yn ceisio gostwng nifer y plant sydd "y tu allan i'r sir". Allwch chi ddweud rhywbeth wrthym am y cynnydd rydych chi'n ei wneud o ran gostwng y nifer honno, oherwydd rwy'n gwybod pa mor ddrud y gall y pethau hyn gostio? Ac allwch chi roi rhyw fath o syniad i ni o faint y mae hyn yn ei gostio?

<u>Ymateb</u>**:** *Y Cynghorydd Sir Hunt*

Yr hyn y gallaf i ei ddweud wrthych yw, ers mis Ebrill, rydyn ni wedi dod â thua 10 plentyn o leoliadau preswyl drud y tu allan i'r sir. Ac rydyn n'n amcanu ein bod ni wedi arbed tua £800,000 trwy wneud hyn.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Rea*

Allwch chi nodi manylion cynlluniau'r Cyngor a'r amserlen er mwyn clirio'r dail sydd wedi cwympo ar y strydoedd a'r pafin dros y chwe mis diwethaf.

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Mae gan y Cyngor nifer o dimau'n cydweithio i sicrhau bod yr adnoddau priodol yn cael eu rhoi er mwyn clirio'r dail sy'n syrthio ar y strydoedd a'r pafin ar draws y ddinas.

Mae tair prif elfen i'r gwaith clirio dail:
Yn gyntaf, parcio llanwol, lle rydyn ni'n gofyn i breswylwyr strydoedd â choed bob ochr symud eu cerbydau er mwyn gallu cyrraedd ymylon y ffyrdd. Dechreuodd yr amserlen ar 5 Medi a bydd yn parhau hyd at 23 Rhagfyr.

Yn ail, yn ystod y prif gyfnod o golli dail o 10 Hydref tan 23 Rhagfyr, rydyn ni'n cyhoeddi amserlen ar gyfer yr ardaloedd lle targedir adnoddau a bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu clirio'n rheolaidd.

Ac yn drydydd, wedi prif gyfnod cwymp y dail, byddwn yn targedu'r prif fannau sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd dŵr wyneb, yn arbennig pan mae'n argoeli tywydd drwg er mwyn gostwng faint o ddail sy'n casglu o amgylch y draeniau.

<u>Cwestiwn ategol</u>**:** *Y Cynghorydd Sir Rea*

A fydd y Cyngor yn gallu rhoi rhestr i Aelodau, os ydych chi'n ysgrifennu at breswylwyr strydoedd penodol yn dweud y byddwch chi'n clirio'r strydoedd, a allwch chi roi rhestr o'r strydoedd hynny i'r Aelodau pan maen nhw am gael eu clirio er mwyn i ni ymgynghori â'r preswylwyr ein hunain?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Rwy'n fodlon rhoi rhestr y strydoedd sydd yn eich ardal chi i chi, anfonwch e-bost ata i i roi gwybod.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Cowan*

Pryd bydd wardiau Gogledd Caerdydd yn derbyn yr un gwasanaeth ag wyth ward mewnol y ddinas sy'n derbyn y sesiynau clirio cyflym bob rhyw ddeufis ar ddull cylchdro.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Rydyn ni wedi ymrwymo i wella'r glanhau/safon amgylchedd y strydoedd yng Nghaerdydd, er gwaethaf yr heriau cyllidol dwys y mae'r Cyngor yn eu hwynebu o ganlyniad i agenda cynildeb Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod nad yw'r materion yn un rhai ar draws y ddinas.

Mae gofyn i'r gwasanaeth yn y wardiau mewnol fod yn gymesur â'r anghenion. Bydd hyn yn berthnasol i ba mor ddwys yw'r boblogaeth, gwahaniaethau cymdeithasol a'r galw ar yr ardaloedd oherwydd cymudwyr. Teimlir bod y dull glanhau cyflym yn y wardiau mewnol yn rhoi gwasanaeth cymesur ag anghenion nad yw'n addas nac yn angenrheidiol yn y wardiau allanol.
Mae'r wardiau allanol yn derbyn glanhau ychwanegol gyda chymorth gan ddau dîm prynhawn ychwanegol sy'n cynorthwyo'r glanhau yn ardal y canolfannau siopa a'r lleoliadau â phroblem yn ogystal â'r drefn lanhau bresennol.

Pan ydyn ni'n dod yn ymwybodol o ardaloedd eraill yn y ward y mae angen mwy o lanhau arnyn nhw, mae adnoddau ar gael i wneud ymweliadau unigryw er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.

Cwestiwn ategol**:** *Y Cynghorydd Sir Cowan*

Efallai yr hoffech chi egluro i ni beth yw'r "gwahaniaethau cymdeithasol"?

Ac fe sonioch chi am y sylwad am roi adnoddau ychwanegol i ganolfannau siopau lleol a'r lleoedd â phroblem, sydd wrth gwrs yn cael eu croesawu, ond mae llawer o bobl o Riwbeina yn siarad â mi am y diffyg glanhau strydoedd yn y strydoedd unigol. Maen nhw'n talu rhai o gyfraddau uchaf y Dreth Gyngor yn y ddinas ac maen nhw'n teimlo nad ydyn nhw'n cael gwerth am arian. Felly, allwch chi ystyried rhoi adnoddau ychwanegol yn y strydoedd ochr, y strydoedd lle mae pobl yn byw?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Rwy’n gobeithio y byddech chi'n cytuno â mi bod nifer yr ymwelwyr i rai o strydoedd ochr Rhiwbeina yn eithaf gwahanol i’r nifer yng nghanol y ddinas neu ardaloedd yn Cathays lle mae poblogaeth myfyrwyr yn uchel.

Mae’n rhaid i ni fod yn realistig am hyn. Fu hyn erioed yn wahanol dan weinyddiaethau blaenorol. Yr hyn y mae’n rhaid i ni ei wneud yw ymateb lle mae’r angen mwyaf. Nid yn Rhiwbeina y mae'r angen mwyaf. Fodd bynnag, fel rwyf i wedi dweud wrthych, os ydych am gofnodi ardaloedd lle rydych chi’n teimlo y mae problem yn benodol, rwyf i’n fwy na bodlon helpu ac anfon Swyddogion i weld a oes modd i ni helpu.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Clark*

Sawl datblygiad adeiladu anghyfreithlon y mae’r tîm gorfodi cynllunio wedi penderfynu eu dymchwel/tynnu ym mhob un o’r blynyddoedd diwethaf:

- 2012/13;
- 2013/14;
- 2014/15 a
- 2015/16?

Ar gyfer pob un o’r blynyddoedd hyn, sawl un o'r datblygiadau anghyfreithlon sydd wedi eu dymchwel mewn gwirionedd?

Hefyd, allech chi roi manylion sefyllfa’r rhai nad ydyn nhw wedi eu dymchwel?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Mitchell*

Mae’n anodd i mi roi’r wybodaeth hon i chi yn yr amser sydd gen i, felly byddaf i’n ceisio rhoi’r wybodaeth hon i chi ar ôl y cyfarfod.

Yr hyn y buaswn i’n ei ddweud fodd bynnag yw mai bwriad camau gorfodi yw datrys problem tor annerbyniol o rheoliadau cynllunio.

Felly, pan mae gofyn am gamau gorfodi, ni fydd hyn o angenrheidrwydd am ddymchwel adeilad yn llwyr. Mae’n bosibl y bydd gofyn am ddymchwel yn rhannol neu wneud addasiadau eraill er mwyn eu gwneud yn dderbyniol yn nhermau cynllunio.
Opsiwn olaf fydd unrhyw gamau gorfodi felly, a chyfrifoldeb cyntaf y dull gorfodi yw trafod gyda a chynghori perchnogion eiddo er mwyn sicrhau bod y datblygiad annerbyniol yn dod yn dderbyniol.

Mae gen i restr gyflawn o wybodaeth am y blynyddoedd rydych chi wedi holi amdanyn nhw, a does gen i ddim amser, mae gen i ddeng eiliad, felly fe roddaf honno i chi wedi’r cyfarfod.

<u>Cwestiwn ategol</u>**:** *Y Cynghorydd Sir Clark*

Rwy’n croesawu’r ffaith y byddaf yn cael y cyfle hwnnw wedi’r cyfarfod. A gaf i nhw’n syth wedi'r cyfarfod hwn?

Oherwydd rwyf i wedi bod yn gofyn hyn am tua deunaw mis bellach. Rwy’n holi am wybodaeth syml am nifer y rhai rydych wedi eu pennu er mwyn eu dymchwel a nifer y rhai sydd wedi eu dymchwel. Ond rwy'n croesawu hynny, os yw'r wybodaeth gennych chi i mi, gallwch ei rhoi i mi wedi'r pwyllgor. Byddaf fi'n gwerthfawrogi hynny. Diolch.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Mitchell*

Mae’r wybodaeth gen i ar fy iPad. Rwy’n fodlon ei hanfon atoch wedi’r cyfarfod, yr wybodaeth am bob blwyddyn yr holoch amdani.

Cwestiwn ategol: *Y Cynghorydd Sir Robson*

Gadeirydd Cynllunio, a’r Aelod Cabinet dros Gynllunio hefyd, gawn ni gynnal adolygiad o’r gorfodi newydd er mwyn sicrhau y cydymffurfir â neu y gweithredir hysbysiad gorfodi yn brydlon wedi ei gyflwyno.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Mitchell*

Dydyn ni ond yn eu harwyddo fel dewis olaf. Ac rwy’n credu oherwydd, fel y dywed yr ateb, y cymerir camau gweithredu fel dewis olaf, cânt eu gweithredu. Syniad gweithredu yw mynd i drafodaethau.

Bu i mi grybwyll ynghynt, mae TAP 9 mwy neu lai yn eich arwain trwy’r broses. Mae’n dweud na chynghorir cymryd camau gweithredu tra mae trafodaethau'n mynd rhagddynt.

Felly, os ydych am gael unrhyw wybodaeth, mae modd i chi gysylltu â’r Swyddogion Gorfodi ac rwy'n fodlon i chi ddod gyda mi i gyfarfod Cynllunio. Gallwn ni eistedd gyda swyddogion a gofyn unrhyw gwestiwn yr hoffech chi ei ofyn.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Cowan*

All yr Aelod Cabinet roi gwybod sawl safle yr ymwelwyd ag o yng ngogledd Caerdydd wrth chwilio am safle i helpu ag ailgylchu’r cartref ac ym mhle mae’r safleoedd hyn a beth yw’r amserlen?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Mae Swyddogion wedi archwilio safleoedd ac adeiladau ar hyd y ddinas, yn cynnwys mewn wardiau yng ngogledd y ddinas. Mae hyn yn cynnwys adolygiad trylwyr o asedau’r Cyngor ac eiddo sydd ar y farchnad yn y sector preifat.

Rhoddaf ragor o fanylion i unrhyw Aelodau ward lleol pan fôn nhw ar gael. Fodd bynnag, wrth drafod ag arbenigwyr ar farchnadoedd amldro, mae’n hanfodol i safle fodloni’r meini prawf o ran maint a pha mor hygyrch yw’r safle, sy’n hanfodol i’r rhai sydd am ddod ag eitemau yno a'r rhai yn y gymuned y mae arnyn nhw angen yr eitemau amldro.

Cwestiwn ategol**:** *Y Cynghorydd Sir Cowan*

Diolch am eich datganiad. Ond yn ei hanfod, y cwestiwn yw “ble mae’r safleoedd, a beth yw'r amserlenni?” rydyn ni wedi gwneud sylwadau ac mae’r Cynghorydd Derbyshire wedi gwneud rhai hefyd yn y cyfarfod diwethaf na fydd Heol Wedal yn cau tan y bodlonir rhai meini prawf penodol. Ac wrth gwrs, mae hynny’n newyddion da. Ond dydyn ni ddim un derbyn unrhyw wybodaeth bendant. Does gennym ni ddim syniad o'r amserlen – ydy hyn yn debygol o fod yn wythnos neu'n agosach at ddegawd? Allwch chi roi rhyw syniad i mi os gwelwch yn dda?

**<u>Ymateb:</u>** *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Ar hyn o bryd, na. Rydyn ni wedi cysylltu â darparwyr trydydd parti sydd eisoes yn rhai o’r mathau hyn o ailddefnyddio, cwmnïau fel Track 2000, Sefydliad Prydeinig y Galon a Groundworks, dyma grwpiau eraill sydd wedi sefydlu’n dda yn ne Cymru.

Felly mae’r Cynghorydd Derbyshire a minnau wedi bod yn siarad â nhw ynghylch eu hanghenion, eu syniadau o ran helpu pobl a phenderfynu pa fath o strwythur y bydd arnom ni ei angen. Rydyn ni’n sicr dros 15000 troedfedd sgwâr er enghraifft, o ystyried capasiti a maint Caerdydd.

Felly ar hyn o bryd, rydyn ni’n edrych ar nifer o eiddo ond dydyn ni ddim mewn sefyllfa lle gallwn ni ddatgan y llefydd penodol.

Gaf i holi hefyd, ac efallai y caf i fod rhywfaint yn hy, Gynghorydd Cowan, a oes gennych chi safleoedd dan sylw ar gyfer y CAGC yn Rhiwbeina? Efallai yr hoffech chi roi gwybod i ni.

<u>Cwestiwn ategol:</u> *Y Cynghorydd Sir Clark*

Allwch chi gadarnhau a fydd Canolfan Ailgylchu Heol Wedal yn parhau i fod ar agor tan cyn neu ar ôl agor canolfan ailgylchu newydd yng ngogledd Caerdydd?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Yn gyntaf, hoffwn i ddweud na fydd Heol Wedal yn cau cyn y bo’r holl bethau eraill rydyn ni wedi sôn amdanyn nhw a gado eu rhoi mewn lle.

Rydyn ni’n sôn am ganolfan amldro. Ac am wn i, os gallaf i ei disgrifio hi ar sail ein teithiau i weld rhai tebyg sydd wedi sefydlu yn ne Cymru, mae nifer helaeth, cynyddol, o fyfyrwyr yn prynu pethau yno yn rheolaidd ac yn taflu’r nwyddau ar ddiwedd y tymor. Ac mae rhieni, fel ni, sydd wedi anfon eu plant i’r brifysgol, yn mynd ac yn ail-brynu’r nwyddau hyn. Ond yn sicr, mae ardaloedd o amgylch Caerdydd lle gellid trwsio’r eitemau, gyda thipyn o ofal ac ymdrech, a’u hatgyweirio hyd gyflwr defnyddio fel nad oes angen eu hailgylchu’n llwyr neu eu hanfon i dirlenwi.

<u>Cwestiwn</u>**:** *Y Cynghorydd Sirol Lloyd*

Allai’r Aelod Cabinet roi gwybod i mi, os gwelwch yn dda, pryd y bydd yr helygen a gwympodd i Lyn Parc y Rhath bron i flwyddyn yn ôl yn cael ei thynnu ac un arall yn cael ei rhoi yn ei lle?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Rydyn ni'n disgwyl y bydd y gwaith yn digwydd a choeden arall yn cael ei phlannu yn lle'r hon sydd wedi cwympo erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

Cwestiwn ategol: *Y Cynghorydd Sirol Lloyd*

Derbyniais i'r rheswm tymhorol am beidio â thorri'r goeden yn y gwanwyn. Ces i wybod bod pethau'n nythu ynddi. Mae hynna'n ddigon teg am wn i. Rwy'n gwybod eu bod nhw wedi bod yn brysur iawn dros yr haf, ond siawns, erbyn hyn a hithau bron yn flwyddyn ers iddi gwympo, y dylai hi fod wedi ei thorri. Mae'n edrych yn hyll i ddefnyddwyr y parc dros yr haf.
Ydy'r broses fonitro, os mai dyna sut rydyn ni'n ei galw hi, ydy hi'n ddigon cadarn ers i Parkwood gymryd rheolaeth llawer o'r parciau? Ydy'r monitro'n ddigon cadarn i sicrhau bod ein parciau'n addas ac yn parhau i fod yn hardd ar gyfer y bobl sy'n ymweld â nhw?

Ymateb**:** *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Rwy'n credu eich bod wedi drysu am Parkwood. Dydyn nhw ddim yn trin â mater y goeden o gwbl, mae hynny'n dal i fod yn gyfrifoldeb adran Parciau ac rwy'n bwriadu i'r sefyllfa barhau felly.

Ein mater ni yw hon, rwy'n credu bod yn rhaid i ni edrych ar y blaenoriaethau, fel yr arfer. Mae ein tîm coed yn gymharol fach. Maen nhw'n trafod nid yn unig y coed yn y parciau ond y rhai yn yr ystadau tai a'r priffyrdd hefyd. Felly mae gennym ni gyfrifoldeb eithaf mawr yno.
Ac rwy'n credu mai'r pechod yw mai oherwydd fandaliaeth y digwyddodd hyn yn gyntaf, sy'n beth ofnadwy.

Ond yr hyn mae'n rhaid i ni ystyried yw cyflwr y goeden a pha un ai ydy hi'n dod yn berygl i'r cyhoedd ai peidio a sefyllfa'r amser. Fel y nodoch chi, bu oedi oherwydd nythu yn y goeden a.y.b. Ond hefyd oherwydd cyflwr y goeden – doedd hi ddim yn beryglus i'r cyhoedd er ei bod hi efallai'n edrych ychydig yn hyll. Ac felly, bu'n rhaid iddi aros ei thro o ran blaenoriaeth tra buom ni'n sicrhau bod y coed a allai beri perygl yn cael eu  trin yn gyntaf.

Felly gallaf i eich sicrhau, fel rwy'n dweud, y caiff hyn ei wneud cyn diwedd y flwyddyn galendr a bydd coeden arall debyg, megis *Salix babylonica,* yn cael ei rhoi yn ei lle.

95 : MATERION BRYS

96 : PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD:

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r argymhelliad y Pwyllgor y Cyfansoddiad ar 21 Medi 2016 yn gysylltiedig â disgrifiadau swydd cynorthwywyr yr Aelodau Cabinet.

PENDERFYNWYD –

(1) cymeradwyo’r addasiad i Erthygl 7.5 y Cyfansoddiad yn cynnwys y Disgrifiadau Swydd ar gyfer Cynorthwywyr Aelodau’r Cabinet fel y nodir yn yr adroddiad;

(2) y dylid gofyn i’r Swyddog Monitro i wneud yr addasiadau i’r Cyfansoddiad sy'n codi o benderfyniad (1) uchod;

(3) y dosberthir y Disgrifiadau Swydd gan y Swyddog Monitro i bob Cynorthwy-ydd yr Aelodau Cabinet.

## 97 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Derbyniodd y Cyngor adroddiad yn enwi’r swyddi gwag yn y Pwyllgor ar hyn o bryd ac roedd enwebiadau’r Grwpiau Plaid ar gyfer y swyddi gwag ar y Pwyllgorau wedi eu cynnwys ar y daflen addasu.

PENDERFYNWYD –

1. Penodi’r Cynghorydd Murphy i'r swydd wag ar y Pwyllgor Cynllunio;
2. Penodi’r Cynghorydd Huw Thomas i’r swydd wag ar y Pwyllgor Apeliadau'r Cyngor.

## 98 : PENODI I GYRFF ALLANOL

Gofynnwyd i’r Cyngor gytuno i benodi cynrychiolwyr y Cyngor i Gyrff Allanol dan swyddogaethau Dewis Lleol yn unol ag enwebiadau wedi’u derbyn gan Grwpiau Plaid fel y nodir ar y daflen ddiwygiadau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo’r enwebiadau canlynol fel cynrychiolwyr Dinas Caerdydd i gyrff allanol:

| Enw’r Sefydliad | Cynrychiolydd wedi’i Enwebu |
|---|---|
| Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a’r Fro | Mr Gareth Williams |
| Awdurdod Tân ac Achub De Cymru | Y Cynghorydd Manzoor Ahmed |

*(Daeth y cyfarfod i ben am 20.50pm)*

## 99 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

CWESTIWN AM YR AMGYLCHEDD

Cwestiwn Ysgrifenedig: *Y Cynghorydd Sir Walker*

Mae'r Ddeddfwriaeth Amgylcheddol Ebrill 2016 yn gofyn i gyrff cyhoeddus sicrhau amgylchedd bioamrywiol. Pa gamau y mae'r Cyngor wedi eu cymryd hyd yn hyn i ymateb i'r ddeddfwriaeth hon a pha gynigion sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Fel Hyrwyddwr Bioamrywiaeth Caerdydd, rwyf i wedi hwyluso mwy o ardaloedd bywyd gwyllt yn ein parciau a mannau agored; mae llawer o'r rhain wedi eu hadu â hadau blodau gwyllt er mwyn annog anifeiliaid peillio. Rwyf i hefyd wedi bod mewn a chadeirio cyfarfodydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Caerdydd ac yn cyfarfod yn aml â'r RSPB a grwpiau a chyrff eraill er mwyn archwilio ffyrdd o wneud Caerdydd yn ddinas fwy bioamrywiol.
Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gofyn i gyrff cyhoeddus, megis Cyngor Dinas Caerdydd, yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ac wrth wneud hynny, yn gwella gwytnwch ecosystemau wrth arfer eu cyfrifoldebau.

Cadeirydd: ____________________________

Dyddiad: ___________________